# Cofnodion Cyfarfod CCG 21.12.21

**Am 7.30yh Ar-lein**

19:289: **Presennol**: Gareth Wyn Jones, (Cadeirydd), Huw Williams, Bedwyr Fychan, Rhodri Wigley, Elwyn Vaughan, Aled Griffiths, Gwenfair Davies, Gwen Lloyd, Gareth Owen, Paul Hughes, Iwan Jones, Sandra Evans (Clerc)

19:290: **Ymddiheuriadau**: William Owen, Dafydd Evans

19:291: **Datganiadau o ddiddordeb**: Dim

19:292: **Cyflwyno a derbyn cofnodion Rhagfyr 2.12.21**. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Huw Williams. Fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies.

19:293: **Materion yn codi o'r Cofnodion**
19:294: **Adroddiad y Clerc** Nodwyd bod rhywfaint o gynnydd o ran gwybodaeth am berchnogaeth mynwentydd eglwysi Llanwrin a Darowen., ond bod yr Eglwys yn Llandaf heb roi manylion eto.
19:295: Nodir mai lle i 16 o blant sydd yn Ysgol Feithrin Glantwymyn, nid 18 fel y nodwyd yn y cofnodion diwethaf.

19:295: **Cynllunio –**

19:295: 1: Cyfeirnod: 21/2195/FUL Cynnig Newid Canolfan iechyd Glantwymyn yn dŷ pedwar llofft Canolfan Iechyd, Glantwymyn, Machynlleth SY20 8LB Cymeradwywyd y cynnig hwn gan y Cyngor. Cynigiodd Aled Griffiths y dylid ei dderbyn ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.
19:295:2: Cyfeirnod: 21/1847/HH Peroryn, Tal-Y-Wern, SY20 8NY
Codi porth, estyniad i'r cefn ac ardal llawr pren allanol yn y tu blaen, wal cerrig atal pridd, system brosesu gwastraff a lle parcio
Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais hwn am gynllunio wedi i'r gwaith gael ei wneud ar sail pryderon gan y gymuned leol ynglŷn â natur strwythurol y gwaith a chulni'r ffordd a ddefnyddir gan gerbydau gan gynnwys cerbydau trwm a cherbydau amaethyddol yn gyson. Cysylltir â'r Adran Gynllunio i fynegi'r pryderon hyn. Cynigiwyd hyn gan Iwan Jones ac fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley.
Nodwyd nad oedd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan yn rhan o'r broses benderfynu.

19:296: **Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Cyflog y Clerc £292.40
- Gloversure £9.12 anfoneb -20689 – Cyngor technegol
- Cynigiwyd y dylid talu'r uchod gan Gareth Owen ac Iwan Jones
- Costau'r clerc – stampiau Rhagfyr 2019- Tachwedd 2021 £82.78
- Cynigiwyd y dylid talu'r rhain gan Aled Griffiths a Huw Williams
- Pensiwn - Penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn cyfrannu at bensiwn i'r Clerc
- Diweddariad ariannol.Trafodwyd y cyfrifon yn fanwl a chawsant eu derbyn gan y Cyngor.

**Diweddariad Ariannol a chysoni cyfrifon CCG ac Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes, Rhagfyr 2021**

| Cyfrif | Rhif y cyfrif | Dyddiad | Balans - datganiad | Sieciau heb eu cyflwyno | Arian a dderbyniwyd | Balans gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***CCG current*** | **80405019** | **Rhagfyr 2021** | **20,743.42** | • **101295**<br>**10.00**<br>**Sarpa**<br>• **101 297**<br>**Capel Same**<br>**250.00**<br>• **101304**<br>**Blewyn Glas**<br>**10.00**<br>• **101309**<br>**Clerc**<br>**228.80**<br>• **101310**<br>• **Peter Jones**<br>**1,360.00**<br>• **101311**<br>**WR**<br>• **149.60**<br>• **101313**<br>**WR**<br>**690.00**<br>• **101314**<br>**WR**<br>• **138.00**<br>• **101315**<br>• **Y Lleng Prydeinig**<br>**20.00**<br>• **101316**<br>**Clerc**<br>**547.00**<br>• **101317**<br>**Gloversure**<br>**9.12**<br>• **101318**<br>**Blewyn Glas**<br>**10.00**<br>**101319**<br>**ICCM**<br>**95.00**<br>**101320**<br>**CThEM**<br>**150.02**<br>***Cyfanswm - 3667.54*** | | **17175.88** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***CCG savings*** | **80405035** | **Medi 2021** | **15,103.75** | | **0.38 (Budd)** | |
| **Gwynt current** | **40052604** | **Rhagfyr 2021** | **1,295.01** | | | |
| **Gwynt savings** | **60849707** | **Medi 2021** | **6,091.28** | | **0.15 (Budd)** | |
| **Mynwentydd** | **40500941** | **Medi 2021** | **1,795.76** | | **0.04 (Budd)** | |

19:297: **Eglwysi Darowen a Llanwrin** – Diweddariad Nodwyd bod tri chynghorydd sef Gareth Wyn Jones, Dafydd Evans a Gareth Owen wedi ymweld â mynwent Llanwrin yn ddiweddar. Mynegwyd pryderon difrifol am gyflwr y wal a'r bwâu yn enwedig yr un agosaf at yr eglwys. Mae ofnau hefyd am ddiogelwch y cyhoedd. Mae ymholiadau'n parhau gyda'r Eglwys yng Nghymru ynglyn â pherchnogaeth a chyfrifoldebau cysylltiedig mynwentydd Darowen a Llanwrin. Ceisiwyd cyngor a chymorth Un Llais Cymru yn y cyswllt hwn. Anfonir unrhyw wybodaeth berthnasol atynt i gael barn gyfreithiol.

19:298**: Gosod Praesept 2021-2022** Penderfynwyd cyflwyno cais am sef £11,500.00 yr un faint â llynedd. Nodwyd y gallai fod taliadau ychwanegol eleni o ran yr etholiad a'r cyfrifoldebau mynwentydd. Penderfynwyd peidio gofyn am arian ychwanegol gan fod arian wrth gefn gan y Cyngor ar hyn o bryd.

Penderfynwyd cael gwared ar y lwfans am eitemau amrywiol o fewn cyllideb fewnol CCG.

19:299: **Pennu Elusennau** - Penderfynwyd cyfrannu £500.00 at Ambiwlans Awyr Cymru, £500.00 at Uned Chemotherapi Ysbyty Bronglais a £500.00 at Gymdeithas Alzheimer

19:300: **Adroddiadau'r Cynghorwyr**
19:300:1: **Cyngor Sir Powys - Elwyn Vaughan** nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu setliad Powys o 9.5% sydd yn fwy na'r hyn a ragwelwyd sef 7%. Gobeithio gweld y cynnydd hwnnw yn cael ei adlewyrchu yn y biliau trethi.

19:300:2: **Pwyllgor Ecodyfi** - Iwan Jones Yn y cyfarfod a fynychodd Iwan a Gwenfair Davies yn ddiweddar trafodwyd gwariant Ecodyfi a beiciau trydan

19:301: **Gohebiaeth**: Cafwyd cais am arian tuag at Eisteddfod yr Urdd yn Sir Dinbych. Penderfynwyd cyfrannu at eisteddfodau lleol yn ôl arfer y Cyngor

19:302: **Unrhyw fater Arall**
19:302:1: **Biniau Cwm Ffrydlan** –Adroddir y broblem yn barhaus gan nad oes datrysiad i'w weld hyd yn hyn.
19:302:2: **Materion ffyrdd**

- **Arwyddion fyrdd** – Mae'r arwyddion canlynol angen sylw:

Arwydd wrth y troad o'r briffordd am Abercegir a Thal-y-wern – wedi cael ei phlygu
Arwydd wrth droi am Lanwrin wrth dop y grofft – eisiau glanhau'r paent a daflwyd drosti

- **Dŵr yn cronni ar y ffordd:**

Cemaes wrth yr eglwys
Llanwrin wrth ymadael a'r pentref am Glantwymyn
Darowen – ar ffordd i Gwmberllan o Dŷ Nant i Abercegir – tyllau archwilio wedi blocio – dŵr yn dod i'r ffordd – angen 'sweepers' a 'jetters'
Draen dŵr ger Canolfan y Dechnoleg Amgen cysylltir â Chanolfan y Dechnoleg Amgen

**Caead concrid twll archwilio wedi torri** yn ymyl y goedwig ger Darowen ar y ffordd i Gomins sy'n beryglus dros ben gan fod twll 7 troedfedd oddi tani

- **Halen** i holl ffyrdd yr ardal – cyflwynir y cais eto
- **Tyllau yn y ffordd** rhwng Ffridd Gate a Phantperthog ar y ffordd gefn – adroddir hwn eto a hefyd yng Nglantwymyn ar y ffordd i'r Ready Mix – Cysylltir â Rhwydwaith Cymru

**Angen ail farcio llinellau ildio a gosod arwyddion ildio** ger mynediad Canolfan y Dechnoleg Amgen

19:302:3: **Dymuno gwellhad buan** -Roedd yn ddrwg gan y Cyngor glywed bod Gwyn Jones yn yr ysbyty ac anfonir cerdyn ato i ddymuno gwellhad buan.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00
Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau **27.1.22**